University of South Wales
Prifysgol De Cymru

# RHAGLEN TYMOR YR HAF AR GYFER YSGOLION A CHOLEGAU 2023



# CROESO

Mae tîm o arbenigwyr arobryn Prifysgol De Cymru yn gweithio gydag ysgolion a cholegau ledled y DU yn cyflwyno gweithdai rhyngweithiol sydd wedi'u cynllunio i hysbysu myfyrwyr am addysg uwch, ac yn eu cefnogi gyda throsglwyddo i'r brifysgol.

Mae ein sesiynau ymwybyddiaeth addysg uwch:

- Am ddim
- Ar gael yn Gymraeg a Saesneg
- Wedi'i ddarparu'n bersonol neu ar-lein
- Wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion eich myfyrwyr

Gall ein rhaglen o weithgareddau, adnoddau a digwyddiadau gefnogi eich ysgol neu goleg i gyflawni Meincnodau Gatsby. I gael rhagor o wybodaeth am wyth Meincnod Gatsby ar gyngor gyrfa da, cliciwch yma.



# DIGWYDDIADAU A GWEITHGAREDDAU PWNC-BENODOL

**Gydag amrywiaeth o sesiynau rhyngweithiol i ddewis ohonynt ar draws pob un o'n Cyfadrannau, bydd ein digwyddiadau a gweithgareddau pwnc-benodol yn rhoi'r cyfle i'ch myfyrwyr gael cipolwg go iawn ar astudio pwnc penodol yn y brifysgol. Rydym yn cynnig sesiynau yn y meysydd pwnc canlynol:**

- Celf a Dylunio
- Bioleg a Fforensig
- Busnes
- Cemeg
- Ceiropracteg
- Gofal Plant, Addysg ac Addysgu
- Troseddeg
- Technoleg Dylunio
- Drama
- Peirianneg
- Saesneg
- Ffilm a'r Cyfryngau
- Gwyddor yr Amgylchedd ac Astudiaethau Natur
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- TGCh
- Y Gyfraith
- Cerddoriaeth
- Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Ffotograffiaeth
- Seicoleg
- Seicotherapi a Chwnsela
- Gwasanaethau Cyhoeddus a Phlismona
- Cymdeithaseg
- Chwaraeon
- Teithio a Thwristiaeth
- Gwaith Ieuenctid a Chymunedol

**Gallwch ddarganfod mwy am ein gweithgareddau pwnc-benodol ar ein gwefan yn ogystal â gweld ein gweithgareddau STEM penodol yma.**

**ADBORTH DIWEDDAR**

**"Diolch i chi am ddarparu cymorth un-i-un i'n myfyrwyr ar eu datganiadau personol. Roeddwn i wrth fy modd, o'r eiliad y cyrhaeddodd y ddau ohonoch, gan fod gennym ni bobl yn aros wrth y drws, bod y ddau ohonoch chi wedi ymroi ar unwaith i weithredu, ac yn yr amser byr gyda phob myfyriwr, fe wnaethoch chi roi adborth gwych ac adeiladol iddyn nhw."**

**Liz Lewis**
**Hyfforddwr Gyrfaoedd**
**Coleg Caerdydd a'r Fro**

# SESIYNAU YMWYBYDDIAETH ADDYSG UWCH

## Pam Addysg Uwch?

Mae'r sesiwn hon yn ateb tri chwestiwn sylfaenol: A yw prifysgol yn werth chweil? A yw'n gyraeddadwy? A yw'n fforddiadwy?

Mae'r sesiwn hon hefyd yn tynnu sylw at y gwahanol ddulliau o ymchwilio a darganfod y brifysgol a'r cwrs cywir.

## Proses UCAS

O gofrestru a dewis cwrs, hyd at ddiwrnod canlyniadau a chlirio, mae'r sesiwn hon yn arwain myfyrwyr drwy'r broses UCAS lawn ac yn amlygu sut y gall myfyrwyr wneud y gorau o'u cais.

## Cyllid Myfyrwyr

Mae'r sesiwn hon yn amlygu'r math a'r swm o gymorth ariannol sydd ar gael yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ariannol a allai fod gan fyfyrwyr.

## Sgiliau Astudio

Bydd y gweithdy hwn yn amlinellu rhai o'r sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer astudio lefel 3 a thu hwnt. Bydd myfyrwyr yn ystyried ystod eang o sgiliau astudio, gan gynnwys darllen ac ysgrifennu effeithiol, technegau adolygu, cyfeirnodi, llên-ladrad a rheoli amser.

## Gweithdy Ymgeisio Ar-lein UCAS

Yn ystod y gweithdy hwn, bydd ein tîm yn arwain eich myfyrwyr trwy broses ymgeisio ar-lein UCAS.

## AU o fewn y Sector AB

Gyda dros 60 o gyrsiau wedi'u rhyddfreinio i'n colegau partner lleol ledled De Cymru, gallwn gynghori myfyrwyr ar fanteision astudio cymhwyster PDC yn eu coleg AB lleol.

## Ysgrifennu Datganiad Personol

Bydd y sesiwn hon yn helpu myfyrwyr i ddeall yr hyn y mae prifysgolion yn chwilio amdano, sut i gyflwyno eu hunain yn y golau gorau a sut i ddod o hyd i'r cymhelliant i 'gyflawni'.

## Paratoi ar gyfer Gyrfaoedd yn y Dyfodol

Mae dyfodol cyflogaeth yn newid. Mae'r sesiwn hon yn cynnig cipolwg ar sut mae byd gwaith yn esblygu, a sut y bydd addysg uwch yn helpu i baratoi myfyrwyr ar gyfer swyddi'r dyfodol.

## Lles a Gwydnwch

Mae'r gweithdy hwn yn arfogi dysgwyr â strategaethau i sicrhau lles cadarnhaol gyda ffocws ar sut i wneud y mwyaf o'u cyfleoedd astudio.

## Paratoi i Ofalu

Bydd y sesiwn hon yn helpu eich myfyrwyr i baratoi cais ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth a'r proffesiynau perthynol i iechyd. Gallant ddarganfod beth mae prifysgolion yn chwilio amdano mewn datganiad personol a sut i wneud argraff mewn cyfweliadau.

## Creu Argraff mewn Cyfweliadau

Trwy enghreifftiau o fywyd go iawn, nod y sesiwn hon yw paratoi myfyrwyr i greu argraff yn eu prifysgol a chyfweliadau swyddi.

Mae ein tîm ar gael i ddarparu cymorth un-i-un i'ch myfyrwyr trwy gydol cylch UCAS. Archebwch sesiwn galw heibio datganiad personol ar gyfer arweiniad ar wneud cais unigol, neu sesiwn galw heibio i ymgeiswyr ar gyfer myfyrwyr gyda chwestiynau am yr hyn sy'n digwydd nesaf ar ôl dyddiadau cau UCAS.

## Paratoi ar gyfer Ffeiriau

Gyda ffeiriau UCAS ar y gorwel, sut gall myfyrwyr wneud y mwyaf o'r cyfle i gwrdd â staff y brifysgol a'u helpu i wneud dewisiadau gwybodus? Bydd y sesiwn hon yn arwain myfyrwyr trwy restr wirio cyn y digwyddiad ynghylch penderfynu pa stondinau i ymweld â nhw, a fel eu bod nhw'n dod pha gwestiynau i'w gofyn, yn ogystal ag amlinellu beth i'w ddisgwyl ar y diwrnod, fel eu dod adref o'r ffair gyda mwy na beiro am ddim!

# FFOCWS PWNC: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Mae gennym becyn cymorth ar gael i alluogi eich myfyrwyr i gryfhau eu ceisiadau prifysgol i'n cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol, gan eu gwneud y gorau y gallant fod.

Cyngor ac arweiniad ar wneud cais:

- Canllaw chwe cham ar-lein i wneud cais i brifysgol.
- Ein canllaw poced 'Paratoi i Ofalu ' y gellir ei lawrlwytho, sy'n helpu myfyrwyr i benderfynu pa lwybr i'w ddilyn.
- Y cyfle i archebu ffug gyfweliad i roi syniad i fyfyrwyr o'r hyn i'w ddisgwyl fel rhan o'u diwrnod cyfweld ym Mhrifysgol De Cymru. E-bostiwch: ysgolionacholegau@decymruac.uk i ddarganfod mwy.

# FFIOEDD A CHYLLID



A oes angen cymorth arnoch i gynghori'ch myfyrwyr ar ffioedd a chyllid ar gyfer cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol? Ewch i'n gwefan am ganllaw defnyddiol.

# DIGWYDDIADAU PDC A DIWRNODAU BLASU

Rydym yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ysgol a choleg a diwrnodau blasu ar ein campysau trwy gydol tymor yr haf. Os hoffech drefnu trefnu diwrnod blasu ar gyfer eich myfyrwyr Blwyddyn 12 neu Flwyddyn 13, cysylltwch â ni.

Ar gyfer ein holl weithgareddau sy'n canolbwyntio ar STEM, gweler ein rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer 2022/23.

| Dyddiad a Sesiwn | Amser | Campws | Sesiwn |
|---|---|---|---|
| **7 Mehefin: Diwrnod Blasu Dylunio ac Ymweld â Gŵyl Graddedigion** | 10.00am – 2.00pm | Caerdydd | Bydd eich myfyrwyr yn gallu profi ein harddangosfa graddedigion, rhwydweithio â myfyrwyr a graddedigion presennol a mynychu cyfres o weithdai byr pwnc-benodol. |
| **12 Mehefin: Diwrnod Blasu Plismona a Throseddeg** | 10.00am – 2.00pm | Trefforest | Cyfres o ddarlithoedd a gweithdai a fydd yn gwella dealltwriaeth o Blismona a Throseddeg. |
| **14 Mehefin: Diwrnod Blasu Gemau ac Ymweld â Gŵyl Graddedigion** | 10.00am – 2.00pm | Caerdydd | Bydd eich myfyrwyr yn gallu profi ein harddangosfa graddedigion, rhwydweithio â myfyrwyr a graddedigion presennol a mynychu cyfres o weithdai byr pwnc-benodol. |
| **16 Mehefin – 22 Mehefin: Arddangosfa Ffotograffiaeth i Raddedigion PDC** | Amrywiol | Caerdydd | Mae Ffotograffiaeth yn PDC yn falch iawn o wahodd grwpiau o ysgolion a cholegau i ymweld â'u harddangosfa i raddedigion a fydd yn ei lle o ddydd Gwener 16 Mehefin tan ddydd Iau 22 Mehefin. Am ragor o wybodaeth ac i archebu lle, e-bostiwch ysgolionacholegau@decymru.ac.uk a dyfynnwch 'Ymweliad arddangosfa Ffotograffiaeth' yn y bar pwnc. |
| **6 Gorffennaf: Diwrnod Blasu Seicoleg** | 10.00am – 2.00pm | Trefforest | Gall myfyrwyr gymryd rhan mewn sesiynau a thrafodaethau rhyngweithiol, o ystod eang o bynciau, siarad â myfyrwyr presennol a chael taith o amgylch ein cyfleusterau. |
| **10 Gorffennaf – 13 Gorffennaf: Creadigol Cyfrwng Cymraeg** | Amser cinio | Rhithwir | Ymunwch â'r Diwydiannau Creadigol yn PDC am gyfres o ddarlithoedd rhithwir Cyfrwng Cymraeg yn ystod amser cinio. Mae'r rhain yn dathlu'r cyfnod cyn Tafwyl 2023. Bydd y sesiynau hyn ar gael yn fyw dros awr ginio, ac yna ar gael wedi'u recordio ar ôl digwyddiad. I gofrestru eich diddordeb mewn mynychu'n fyw, neu dderbyn y cynnwys wedi'i recordio ar ôl y digwyddiad, e-bostiwch ysgolionacholegau@decymru.ac.uk gyda 'Wythnos Cyfrwng Cymraeg Gorffennaf' yn y bar pwnc. |
| **14 Gorffennaf: Diwrnod Blasu Cyfrwng Cymraeg** | 10.00am - 2.00pm | Caerdydd | Ymunwch ag academyddion sy'n siarad Cymraeg a chydweithwyr cymorth ar Gampws Caerdydd ar gyfer ystod o weithdai pwnc-benodol a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r amrywiaeth o gyfleoedd i ddefnyddio sgiliau Cymraeg yn PDC. |
| **19 Gorffennaf: Diwrnod Trochi ar gyfer Y Gyfraith a Chyfiawnder** | 10.00am - 2.00pm | Trefforest | Ymunwch ag academyddion o Gyfadran Y Gyfraith yn PDC am ddiwrnod trochi sy'n cynnwys gweithgareddau rhyngweithiol, efelychiedig yn ein Hystafell Hydra a'n Ffug Lys. |

**ARCHEBWCH NAWR**

# EHANGU CYFRANOGIAD

Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i gefnogi grwpiau a dangynrychiolir yn AU o unrhyw oedran, cefndir neu grŵp ethnig a sicrhau eu bod yn cael cyfle teg a chyfartal i astudio gyda chefnogaeth.

O fewn Tîm Recriwtio Myfyrwyr y DU, mae tîm o staff sy'n cefnogi ac yn cyflwyno ystod o weithgareddau ar gyfer myfyrwyr sy'n cael eu tangynrychioli mewn addysg uwch ar hyn o bryd.

Mae hyn yn cynnwys:

- Gofalwyr ifanc a'u teuluoedd
- Plant y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd
- Myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
- Myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Oedolion 21+
- Myfyrwyr sydd naill ai mewn gofal ar hyn o bryd, neu sydd wedi bod mewn gofal ar ryw adeg
- Myfyrwyr o ardaloedd côd post difreintiedig wedi'u nodi trwy systemau

Cysylltwch â ni os hoffech drafod ymweliad neu gymorth pwrpasol i grwpiau neu unigolion sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU.



# YSGOL HAF PDC

Rydym yn cynnal Ysgol Haf PDC ym mis Gorffennaf unwaith eto eleni gyda chefnogaeth Ymestyn yn Ehangach a rhaglen o weithgareddau cyffrous i roi blas i fyfyrwyr ar fywyd fel myfyriwr israddedig.

Cynhelir Ysgol Haf PCD ar y 12fed a 13eg o Orffennaf i roi profiad dilys o fywyd prifysgol i fyfyrwyr. Ynghyd â noson o lety yn ein neuaddau preswyl a chyfres o weithgareddau cymdeithasol, bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad pwnc-benodol ac AU.

Dyrennir lleoedd i fyfyrwyr ysgol a choleg Blwyddyn 12 a Lefel 3 (Blwyddyn 1), ond mae niferoedd yn gyfyngedig a rhoddir blaenoriaeth i fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch ar hyn o bryd.

Bydd myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn yr Ysgol Haf ac sy'n cofrestru ar gwrs gradd israddedig 3 neu 4 blynedd amser llawn ym mis Medi 2024, yn gymwys ar gyfer Bwrsariaeth Ysgol Haf PDC, gwerth £500 i gefnogi gyda thechnoleg neu ddeunyddiau a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r cwrs.

Gallwch enwebu hyd at 5 myfyriwr i gymryd rhan, neu gall myfyrwyr wneud cais eu hunain.




**DARGANFOD MWY**

# YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau i gefnogi'ch myfyrwyr gyda'r costau sy'n gysylltiedig â'u hastudiaethau. Ewch i decymru.ac.uk/ysgolionacholegau i lawrlwytho deunyddiau i hyrwyddo ysgoloriaethau a bwrsariaethau i'ch myfyrwyr.



## CYLLID MYFYRWYR

Os hoffech i ni gyflwyno sesiwn Cyllid Myfyrwyr yn eich ysgol neu goleg a fydd yn arwain eich myfyrwyr (a/neu eu rhieni a'u gofalwyr) drwy'r broses, cysylltwch â ni.

# Campws Glyn-taf, Pontypridd






# DPP ATHRAWON A CHYNGHORWYR

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Tîm Recriwtio Myfyrwyr yn gweithio gyda dros 2,000 o athrawon a chynghorwyr i sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am addysg uwch, gan gynnwys cynnal digwyddiad blynyddol Cynhadledd Athrawon a Chynghorwyr a'u cefnogi yn eu rolau addysgu a chynghori o ddydd i ddydd.

Os oes gennych gais am weithgaredd penodol neu os hoffech gefnogaeth uniongyrchol i siapio eich llwybrau myfyrwyr i raglenni addysg uwch, anfonwch e-bost atom. Os hoffech chi gael eich ychwanegu at ein cronfa ddata cysylltiadau allweddol, llenwch y ffurflen hon.

Sylwch, mae pob un o'n sesiynau DPP wedi'u haddasu i'w cyflwyno ar-lein. Rydym hefyd yn gallu darparu DPP Athrawon a Chynghorwyr yn bersonol ar un o'n campysau neu yn eich ysgol/coleg.

I gael rhagor o wybodaeth am ein sesiynau a gweithgareddau DPP athrawon, ewch i'n gwefan.

## GRADD SYLFAEN: CYMORTH DYSGU AR GYFER ADDYSG BELLACH, OEDOLION A GALWEDIGAETHOL

Mae ein gradd sylfaen yn darparu llwybr rhan-amser hyblyg, dros dair blynedd, i'r rhai sy'n dymuno cychwyn ar yrfa mewn addysg bellach a hyfforddiant.

Am ragor o wybodaeth, neu i neilltuo lle ar Ddiwrnod Agored, ewch i: https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/astudio/pynciau/graddau-addysgu/ neu cysylltwch â ni: ysgolionacholegau@decymru.ac.uk

## CYSYLLTWCH

E-bostiwch y Tîm Recriwtio Myfyrwyr i archebu sesiwn DPP.

# DIWRNODAU AGORED

## 30 Medi

Rhowch hwb i ymchwil AU eich myfyrwyr yn ein Diwrnod Agored. Yn cael ei gynnal ar Ddydd Sadwrn 30 Medi, mae'r digwyddiad hwn yn ffordd wych i'ch myfyrwyr gael gwybod am yr amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael yn PDC. Mae'n bosibl hefyd y gallwn helpu gyda chostau cludiant os hoffech ddod â grŵp o'ch ysgol/coleg.

**ARCHEBWCH NAWR**

**Campws Casnewydd**



## DIWRNODAU YMGEISWYR

Gwahoddir myfyrwyr sydd â chynnig gan Brifysgol De Cymru i ddiwrnod ymgeiswyr. Ymweld â diwrnod ymgeiswyr yw'r ffordd orau i fyfyrwyr ddod i adnabod eu darlithwyr, darganfod mwy am eu cwrs dewisol trwy sesiwn flasu a mynd o amgylch ein cyfleusterau. Anogwch eich myfyrwyr i fynychu.

## BWRSARIAETH TEITHIO

Gallwn dalu am gostau rhesymol sy'n gysylltiedig ag ymweld â Phrifysgol De Cymru i fynychu diwrnod agored israddedig, cyfweliad neu ddiwrnod ymgeiswyr. Dysgwch fwy am gymhwysedd a sut i wneud cais ar ein gwefan.

**Campws Caerdydd**



Rydym yn cynnal rhaglen gyffrous o ddiwrnodau agored a digwyddiadau ar-lein trwy gydol y flwyddyn, fel y gall eich myfyrwyr ddarganfod mwy am PDC.

## Ar y campws

Bydd eich myfyrwyr yn cael y cyfle i archwilio ein campysau yng Nghaerdydd, Casnewydd, neu Bontypridd, cwrdd â staff academaidd a myfyrwyr presennol, dysgu am fywyd yn PDC ac arian myfyrwyr, a chymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â'u cwrs.

## Ar alw

Gall eich myfyrwyr gael mynediad i'n diwrnod agored ar alw unrhyw bryd i ddarganfod ein cyrsiau, archwilio ein campws yn rhithwir, a sgwrsio â staff a myfyrwyr trwy Unibuddy.

## Ar-lein

Rydym yn cynnal diwrnodau agored ar-lein trwy gydol y flwyddyn. Yma gall eich myfyrwyr wylio cyflwyniadau byw gan ein staff addysgu a chymorth, sgwrsio'n fyw gyda staff a myfyrwyr a gofyn cwestiynau mewn sesiynau Holi ac Ateb. Mae'r rhain yn opsiwn gwych os na all eich myfyrwyr gyrraedd y campws neu os ydynt am ddysgu mwy ar ôl digwyddiad ar y campws.

**ARCHEBWCH NAWR**



Parc Chwaraeon PDC

# Cefnogwch eich myfyrwyr i gynllunio eu hyfory, heddiw.

Rydym yn credu mewn creu gwell yfory, a dyna pam rydym yn dechrau lleihau ein defnydd o ddeunyddiau printiedig lle bynnag y bo modd.

Mae ein prosbectws digidol newydd yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar eich myfyrwyr am PDC mewn un lle. Sganiwch y côd QR isod neu ewch i prosbectws.decymru.ac.uk

Chwiliwch: Prifysgol De Cymru

**Cynhyrchwyd gan Fyfyrwyr y Dyfodol , Prifysgol De Cymru.**

**Mae Prifysgol De Cymru yn elusen gofrestredig. Rhif Cofrestru 1140312.**